# Pwyllgor Datblygu a Chefnogi Aelodau

**11 Mai 2022**

Yn bresennol: Mrs J James (Cadeirydd)
Cynghorydd D Clements, Cynghorydd K Doolin, Dr R Plummer a’r Cynghorydd A Wilcox.

[Ymunodd Mrs S Hoss â’r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o’r Cynllun Cyfeillio (Cofnod 5a) cyfeir]

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00pm – 2.40pm)

**1. Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb wrth y Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney a’r Cynghorydd M Williams.

**2. Datgeliadau**
Doedd yna ddim datgeliadau o fuddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2022 i’w cadarnhau a’u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2022.

**4. Materion yn Codi**
a) Siarter Uwch (Cofnod 4a))
Doedd cadarnhad o’r dyddiad nac amser cyflwyno’r Siarter Uwch i Ddatblygu a Chefnogi Aelodau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddim wedi ei dderbyn hyd yn hyn ond roedd y Cadeirydd yn obeithiol y deuai i law. Gofynnodd i Reolwr Gwasanaethau Democrataidd a Gweinyddiaeth a’r Cynorthwyydd Gwasanaethau Gweithredol a Democrataidd i fod yn bresennol i gymryd clod am y gwaith a wnaed.

Nodwyd yn y cyfarfod blaenorol bod cyfeiriad wedi’i wneud at gynhyrchiad fideo gan y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymreig oedd yn darparu trosolwg o’u gwaith, i’w ddefnyddio wrth ddewis Cynghorwyr Sir i wasanaethu’r Awdurdodau. Gofynnodd yr Aelodau am ddolen i’r fideo a chytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Gweinyddiaeth i ddosbarthu’r ddolen.

**Nodwyd.**

b) **<u>Adolygiadau Datblygiad Personol (Cofnod 4b)</u>**
Gofynnodd y Cadeirydd p'un a oedd dyddiad ar gyfer gweithredu Adolygiadau eleni wedi'i gytuno. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Gweinyddiaeth ei bod o'r farn y dylai hyn ddigwydd ym mis Medi i ganiatáu i'r Cynghorwyr newydd eu hethol i gwblhau eu rhaglen sefydlu gychwynnol, a chafodd hyn ei gytuno. Teimlai'r Aelodau bod gan Aelodau newydd lawer i'w gymryd i mewn pan oedden nhw'n dechrau, ac y byddai'n well i'r holl Aelodau gyflawni eu Hadolygiadau ar yr un adeg yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Nodwyd.**

**5. Diweddariad Cyffredinol ynghylch Datblygiad a Chefnogaeth Aelodau**

a) <u>Cynllun Cyfeillio</u>
Atgoffwyd yr Aelodau bod adborth am y cynllun peilot Cyfeillio wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Gorffennaf 2021 a gofynnwyd i'r swyddogion adolygu'r cynllun yng ngoleuni'r adborth a dderbyniwyd. Roedd cynllun cyfeillio wedi'i ddiwygio felly wedi'i atodi i'r adroddiad i'r Aelodau ei ystyried.

Roedd un Aelod wedi darparu rhai mân ddiwygiadau geiriol cyn y cyfarfod a chytunwyd y dylid mabwysiadu'r rhain. Roedd yr Aelodau hefyd am eglurhad ynghylch p'un a fyddai'r Cynllun yn orfodol, ac fe'u cynghorwyd y byddai Aelodau newydd yn cael eu hannog i gymryd rhan ond nodwyd nad oedd hyn yn orfodol. Awgrymwyd y dylid dosbarthu nodyn atgoffa am y cynllun a'i fuddiannau ar ôl i'r Aelodau newydd fod yng ngwasanaeth yr Awdurdod am dri mis.

**Penderfynwyd** y dylai'r Cynllun Cyfeillio gael ei fabwysiadu yn amodol ar gynnwys y sylwadau a wnaed.

b) <u>Sefydlu Aelodau</u>
Adroddwyd y byddai nifer o Aelodau newydd yn cael eu penodi i'r Awdurdod ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol, ac y bydden nhw'n cael eu sefydlu er mwyn iddyn nhw ddod yn wybyddus â'r modd y mae'r Awdurdod yn gweithio. Roedd rhaglen sefydlu drafft wedi'i hatodi i'r adroddiad yn gosod allan yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r rhaglen.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Gweinyddiaeth tra bo'r rhaglen efallai'n edrych yn feichus, mewn gwirionedd byddai nifer o sesiynau'n cael eu cynnal ar y cyd â Chyngor Sir Penfro. O ran y diwrnod sefydlu gynhaliwyd yn Llanion, roedd y swyddogion wedi cymryd sylw o'r adborth blaenorol bod gormod o wybodaeth wedi'i gyflwyno ar yr un pryd, ac roedd yn fwriad felly i rannu'r sesiwn, fel bod cyflwyniadau i'r ddwy Gyfarwyddiaeth yn cael eu cynnal ar adegau ar wahân.

Eto, drachefn, roedd nifer o sylwadau manwl wedi'u gwneud ar y rhaglen ddrafft cyn y cyfarfod, ac o ganlyniad cynigiwyd cyfuno'r ddau fodiwl cyntaf o dan y pennawd 'Llywodraethiant Effeithiol' er mwyn uno Rheoli Datblygu a llywodraethiant yn fwy cyffredinol. Awgrymwyd hefyd y dylai'r elfen Gyllideb o'r Rheoli Perfformiad gael ei ymestyn i gynnwys cydymffurfiad cyllidol. Roedd cais wedi'i wneud am "organogram" o'r sefydliad, fel bo Aelodau newydd yn medru penderfynu pwy fyddai'r person mwyaf priodol i ddelio â chwestiwn ond, fodd bynnag, cynghorodd y swyddog oherwydd yr ail-strwythuro presennol, ni fyddai'n bosib darparu hyn ar unwaith, ond byddai'n cael ei uwchlwytho i borthol yr Aelodau pan fyddai ar gael.

Nodwyd er mai'r gobaith oedd cyfarfod â'r Aelodau newydd wyneb yn wyneb, byddai'r sefydlu'n cael ei gynnig yn rhithiol hefyd. Awgrymwyd y gallai hefyd gael ei recordio ar gyfer y rhai hynny na fyddai'n medru mynychu; byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â'r Tîm TG i weld a ellid gosod sesiynau wedi'u recordio ar gael trwy borthol hyfforddiant. Gobeithiai'r Cadeirydd y byddai yn bosib i'r Aelodau newydd gael eu tywys oddi amgylch Llanion ac i gyfarfod â'r staff allweddol.

**Penderfynwyd** cytuno ar gynnwys y Rhaglen Sefydlu Aelodau ynghyd â'r diwygiadau amlinellwyd yn y cyfarfod.

c) Presenoldeb Aelodau
Adroddwyd bod presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn hyd yma yn 88% (targed 75%), tra bo presenoldeb mewn achlysuron hyfforddiant yn 62% (targed 65%).

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Datblygu a Chefnogi Aelodau a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023 heb eu diwygio.